

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR

C Hanagan
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau
Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democraidd (01443 424098)

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod hybrid o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 20 Medi 2023** am **4pm**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn [yma](#)

AMSER	EITEM	TUDALEN(N AU)
5 Munud	ITEM 1. DATGAN BUDDIANT Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â'r Cod Ymddygiad. <ol style="list-style-type: none">1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.	
5 Munud	ITEM 2. CYHOEDDIADAU	
5 Munud	ITEM 3. COFNODION Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor, a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023, yn rhai cywir.	5 - 26
LLYWODRAETHU AGORED:		
10 Munud	ITEM 4. DATGANIADAU Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:	

20 Munud	<p>ITEM 5. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU</p> <p>Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol Gweithdrefn 9.2 y Cyngor.</p> <p>(Nodwch: Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)</p>	27 - 34
	<p align="center">RHAGLEN WAITH Y CYNGOR – ER GWYBODAETH I AELODAU</p> <p>Rhaglen Waith Y Cyngor 2023/24</p>	
	<p align="center">ADRODDIADAU'R SWYDDOGION</p>	
15 Munud	<p>ITEM 6. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023/24 - 2026/27</p> <p>Derbyn adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen sy'n rhoi'r diweddaraf am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.</p>	35 - 44
10 Munud	<p>ITEM 7. ADOLYGIAD O DELERAU AC AMODAU'R CYNGOR</p> <p>Derbyn adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen a Chyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol.</p>	45 - 48
10 Munud	<p>ITEM 8. BLAENORIAETHAU BUDDSODDI'R CYNGOR</p> <p>Derbyn adroddiad y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen.</p>	49 - 54
10 Munud	<p>ITEM 9. POLISI CYFARFODYDD AML-LEOLIAD</p> <p>Trafod Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad drafft y Cyngor.</p>	55 - 70
10 Munud	<p>ITEM 10. SEFYDLU CYDBWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU Y CYDBWYLLGOR CORFFORAETHOL</p> <p>Trafod adroddiad y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd a Chyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.</p>	71 - 82
10 Munud	<p>ITEM 11. NEWID I AELODAETH CORFF ALLANOL</p> <p>Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.</p>	83 - 88
10 Munud	<p>ITEM 12. PENODI CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL</p> <p>Derbyn adroddiad ar y cyd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol.</p>	89 - 90

	ITEM 13. MATERION BRYD Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.	
--	---	--

Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu

At: Pob Aelod o'r Cyngor

tudalen wag

PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023 am 4.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion [yma](#)

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-

Y Cyngorydd G Hughes (Cadeirydd)

Y Cyngorydd Sheryl Evans	Y Cyngorydd B Stephens
Y Cyngorydd R Bevan	Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd J Brencher	Y Cyngorydd G Caple
Y Cyngorydd J Cook	Y Cyngorydd A Crimmings
Y Cyngorydd R Davis	Y Cyngorydd J Edwards
Y Cyngorydd L Ellis	Y Cyngorydd S Emanuel
Y Cyngorydd G Jones	Y Cyngorydd B Harris
Y Cyngorydd W Jones	Y Cyngorydd G Holmes
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd W Hughes
Y Cyngorydd C Leyshon	Y Cyngorydd G O Jones
Y Cyngorydd C Lises	Y Cyngorydd M Maohoub
Y Cyngorydd C Middle	Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd C Preedy
Y Cyngorydd G Stacey	Y Cyngorydd S Rees
Y Cyngorydd L Tomkinson	Y Cyngorydd J Smith
Y Cyngorydd M Webber	Y Cyngorydd G Warren
	Y Cyngorydd R Yeo

Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:

Y Cyngorydd M Ashford	Y Cyngorydd J Barton
Y Cyngorydd V Dunn	Y Cyngorydd A Dennis
Y Cyngorydd A S Fox	Y Cyngorydd R Evans
Y Cyngorydd D Evans	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd S Hickman	Y Cyngorydd H Gronow
Y Cyngorydd G Hopkins	Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd A Roberts	Y Cyngorydd D Owen-Jones
Y Cyngorydd D Parkin	Y Cyngorydd C Preedy
Y Cyngorydd W Treeby	Y Cyngorydd A Rogers
Y Cyngorydd K Webb	Y Cyngorydd D Williams
Y Cyngorydd T Williams	Y Cyngorydd R Williams
	Y Cyngorydd D Wood

Swyddogion oedd yn bresennol:

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Cyfadran – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr S. Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd

Swyddogion Trivallis:

Mr D Forbes, Prif Weithredwr
Mr N Beckett, Cadeirydd y Bwrdd
Mr K Montague, Cyfarwyddwr Gweithredol - Cymunedau
Ms L Pinney, Cyfarwyddwr Gweithredol - Adnoddau
Mr D Davies, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Atgyweirio
Ms T Hawkins, Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymdogaethau

Ymddiheuriadau am absenoldeb:

Y Cyngorydd L Addiscott	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd E L Dunning	Y Cyngorydd A J Ellis
Y Cyngorydd P Evans	Y Cyngorydd S Evans
Y Cyngorydd K Johnson	Y Cyngorydd K Morgan
Y Cyngorydd N H Morgan	Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd W Owen	Y Cyngorydd S Powderhill
Y Cyngorydd M Powell	Y Cyngorydd G E Williams

23 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Roedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol C Middle wedi datgan buddiant personol - "Rydw i wedi cael fy mhenodi'n Aelod o Fwrdd Trivallis gan y Cyngor, ond nid yw hyn wedi'i gymeradwyo gan Trivallis hyd yn hyn."

Roedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S Emmanuel wedi datgan buddiant sy'n rhagfarnu - "Rydw i'n cael fy nghyflogi gan Trivallis, fydda i ddim yn bresennol am weddill yr eitem yma."

Roedd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A S Fox wedi datgan buddiant personol - "Mae fy mhartner i'n gweithio i'r sefydliad sy'n cyflwyno yn y cyfarfod yma".

24 Trivallis

Cyflwynodd y Llywydd gynrychiolwyr Trivallis a dywedodd wrth yr Aelodau y byddan nhw'n ymdrin ag eitemau yn ôl trefn yr agenda.

Roedd y Prif Weithredwr, Mr D Forbes, wedi cyflwyno'i hun a'i gydweithwyr, Mr N Beckett, Cadeirydd y Bwrdd, Mr K Montague, Cyfarwyddwr Gweithredol -

Cymunedau, Ms L Pinney, Cyfarwyddwr Gweithredol - Cyllid ac Adnoddau, yn ogystal â chydweithwyr eraill oedd yn bresennol i ateb unrhyw gwestiynau am y rolau penodol.

Roedd y Prif Weithredwr wedi darparu trosolwg o'r prif feysydd i'w trafod ag Aelodau, megis heriau sy'n wynebu gwasanaethau, capasiti ar gyfer buddsoddi, a llwyddiannau. Rhoddodd wybod bod y swyddogion sy'n cyflawni rolau ar lefel Cyfarwyddwr Gweithredol yn garfan newydd sydd â dealltwriaeth glir o'u rôl a'r bwriad i feithrin perthynas dda gyda phartneriaid allanol, megis y Cyngor.

Gyda chymorth sleidiau PowerPoint cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg o faterion allweddol o dan y penawdau canlynol:

- Y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud
- Heriau - Gwaith Atgyweirio
- Heriau - Cymdogaethau a Gwasanaethau Cymorth
- Gwasanaeth Gwell
- Hwyluso Twf yn RhCT
- Cyfathrebu

Yn dilyn y cyflwyniad, roedd Arweinydd y Cyngor wedi diolch i gynrychiolwyr Trivallis am ddod i gyfarfod y Cyngor. Roedd yr Arweinydd wedi pwysleisio pa mor bwysig yw hi bod Trivallis yn meithrin perthynas dda gyda'r Aelodau Etholedig, sy'n atebol i'r trigolion ac sydd angen codi'u pryderon gyda Trivallis o bryd i'w gilydd.

Roedd yr Arweinydd wedi nodi bod materion sy'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn heriol, i'r fath raddau mewn rhai ardaloedd ei fod e o'r farn bod Trivallis wedi colli rheolaeth o'i eiddo, ond mae gwaith diweddar gyda'r Heddlu, Cyngor RhCT a phartneriaid eraill er mwyn mynd i'r afael â phryderon difrifol o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi arwain at welliannau (nododd yr Arweinydd fod rhai ardaloedd yn galw am sylw pellach o hyd).

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y pryderon canlynol; rhestr hir o waith cynnal a chadw a gwaith atgyweirio sydd angen cael ei gwblhau, amseroedd ymateb, materion ariannol a gweithredol, mesurau rheoli eiddo. Ychwanegodd hefyd ei bod hi'n hollbwysig meithrin a chynnal perthynas dda gyda'r Aelodau Etholedig wrth fynd ati i ddatrys y materion yma. Yn dilyn cyfnod hir o godi pryderon gyda Trivallis, ac yn dilyn trafodaethau rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru, nododd yr Arweinydd y byddai angen i'r Cyngor holi cwestiynau sylfaenol os nad yw'r gwelliannau yn y meysydd yma'n cael eu cyflawni. Fodd bynnag, roedd yr Arweinydd yn hyderus na fyddai hyn yn digwydd, a hynny yn sgil penodi'r Uwch Garfan Rheoli newydd a gyda'r ymrwymiad i wella dulliau cyfathrebu rhwng y ddau sefydliad.

Roedd y Prif Weithredwr, Mr D Forbes, wedi ymateb i gwestiynau'r Arweinydd, gan bwysleisio y bydd y berthynas gyda'r Aelodau Etholedig yn cael ei chryfhau, drwy gynnal sesiynau cerdded o dŷ i dŷ gyda Swyddogion Trivallis a'r Aelodau lleol, a hynny i wella dulliau cydweithio rhwng y ddau bartner.

Rhoddodd y Llywydd gyfle i Arweinwyr y Grwpiau (neu Aelodau wedi'u henwebu) i holi cwestiynau.

Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Jones wedi codi pryderon am achos penodol yn ei ward ef, dywedodd y Cyfarwyddwr Gweithredol - Cymunedau y byddai modd trafod y mater yma yn dilyn y cyfarfod.

Roedd Arweinydd y Grŵp Ceidwadol, Y Cynghorydd S Trask, wedi holi a fyddai modd i Swyddogion Tai Trivallis fynychu cyfarfodydd Partneriaeth ar gyfer Gweithredu Cymunedol yn ei ward e i wrando ar bryderon tenantiaid wyneb yn wyneb. Ychwanegodd yr Aelod nad yw ymholiadau yn cael eu datrys ar hyn o bryd - a bod amseroedd ymateb rhwng 2 a 3 wythnos. Ymrwymodd y Cyfarwyddwr Gweithredol - Cymunedau y byddai Rheolwr Ardal Gymdogaeth yn mynychu cyfarfodydd Partneriaeth ar gyfer Gweithredu Cymunedol yn y dyfodol, a hynny gan ei bod hi'n bwysig gwrandao ar bryderon y bobl yma.

Ar yr adeg yma, cyhoeddodd y Llywydd y bydd cyfarfod y Cyngor oedd wedi'i drefnu am 5pm yn dechrau am 5.15pm er mwyn rhoi cyfle i bob Aelod ofyn cwestiynau i Trivallis. Roedd yr Aelodau canlynol wedi gofyn y cwestiynau isod:

Roedd y Cynghorydd S Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, wedi nodi bod y pwyllgor yn wynebu heriau sylweddol o ran gwrthwynebiad y cyhoedd i nifer o'r cynigion tai sy'n cael eu cyflwyno gan Trivallis. Mae modd i'r sefyllfa oedd yma fod yn anghyfeillgar ar adegau. Yn yr achosion hynny ble mae cymunedau yn croesawu cynigion tai cymdeithasol, yn aml iawn byddan nhw'n gofyn bod y polisi gosod yn sicrhau bod tenantiaid yn 55 oed neu'n hŷn. Sut mae Trivallis yn mynd ati i ymgysylltu â phobl leol i sicrhau bod lleoliadau addas a mathau o dai addas yn cael eu darparu a sut ydyn nhw'n ennill cefnogaeth ar gyfer y datblygiadau yma sy'n cael eu cynnig gan Trivallis?

Roedd y Cynghorydd A Rogers wedi diolch i Trivallis am gynnal achlysur yn ei ward ef ym mis Ebrill, roedden nhw wedi cynnig cyngor i drigolion lleol ar faterion sy'n ymwneud â'r argyfwng costau byw. Fodd bynnag, nododd fod yr ymatebion i bryderon y trigolion yn achosi rhwystredigaeth a holodd pa drefniadau sydd ar waith i gofnodi a dilyn cynnydd ymholiadau, a yw rhifau cyfeirnod yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth o'r hyn sydd angen ei wneud?

Roedd y Cynghorydd D Owen-Jones wedi codi pryder ynghylch glendid yr ystadau yn ei ward e, gan nodi bod y Cyngor yn mynd ati i gyflawni'r dasg o symud dodrefn sydd wedi'u gadael yn y lonydd a'r meysydd parcio. Oes modd i Trivallis fynd ati i ddatrys y broblem hirdymor yma, yn ogystal ag adfeiliad y garejys a'r prosiect ceginau/ystafelloedd ymolchi sydd heb ei gwblhau ar ôl 5 mlynedd.

Nododd y Cyfarwyddwr Gweithredol - Cymunedau fod Trivallis yn blaenoriaethu materion amgylcheddol a thipio'n anghyfreithlon. Ychwanegodd fod Trivallis wedi sefydlu gweithgor aml-sefydliad i fynd i'r afael â'r materion yma, rheoli sbwriel a gerddi ar yr ystadau, a bod yn rhagweithiol o ran gorfodi. Nododd hefyd bod Trivallis yn y camau datblygu ar gyfer datblygiadau newydd ac mae hyn yn cynnwys lleoliad manau storio biniau. Cadarnhaodd fod Trivallis yn derbyn dros 1,000 o gwynion sy'n ymwneud â gerddi bob blwyddyn, mae'r cwynion yma'n aml yn gysylltiedig â ffordd o fyw'r unigolyn neu drigolyn sy'n agored i niwed. Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol wedi argymhell bod y Cynghorydd Owen-Jones yn defnyddio'r rhif ffôn ar gyfer Aelodau i sicrhau bod y lefel ymgysylltu

perthnasol ar waith rhwng yr Aelod a chydlynnydd yr ardal leol.

Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol - Cymunedau wedi rhoi gwybod bod Trivallis yn defnyddio system Dynamics gan gwmni Microsoft er mwyn cadw cofnod o bob ymholiad sy'n cael ei gyflwyno. Nododd hefyd bod Trivallis yn ymateb yn ysgrifenedig i bob tenant. Er mwyn gwella'r gwasanaeth, yn enwedig ar gyfer tenantiaid sy'n iau na 55 oed, mae Trivallis yn awyddus i ddatblygu ap i denantiaid. Bydd yr ap yma'n cael ei gyflwyno ym mis Medi eleni, bydd modd dilyn cynnydd yr ymholiadau sy'n cael eu nodi ar-lein gan roi cyfle i denantiaid ddilyn cynnydd gwaith atgyweirio. Fodd bynnag, mae gwaith hefyd yn cael ei gynnal i wella profiad y ganolfan alwadau ac amser ymateb o ran gohebiaeth ysgrifenedig ar gyfer yr unigolion hynny sy'n dewis i beidio â defnyddio'r ap.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol - Cymunedau wybod bod gwrthwynebiad i dai cymdeithasol, ond mae Trivallis yn dilyn yr asesiad o anghenion y farchnad sy'n cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol. Felly mae'r hyn sy'n cael ei adeiladu yn ymateb i anghenion y gymuned leol. Ychwanegodd fod Trivallis yn ymateb i'r angen lleol a bod angen nodi tystiolaeth o hyn yn rhan o'r rhaglen o ddatblygiadau sydd wedi'u cynllunio. Nododd hefyd bod Trivallis yn cynnal cynifer o achlysuron cyn ymgysylltu ag sy'n bosibl, ond nododd hefyd bod modd gwneud rhagor o waith i helpu tenantiaid sy'n symud i eiddo newydd a'u helpu nhw i ddod yn rhan o'r gymuned drwy gynnig grwpiau cymunedol lleol gyda chymorth yr Awdurdod Lleol.

Roedd y Cynghorydd C Lises wedi diolch i Trivallis am y cyflwyniad, a hefyd am eu cyhoeddiad diweddaraf a'r ffordd y maen nhw'n cyfathrebu â'r Aelodau Etholedig. Tynnodd y Cynghorydd Lises sylw at yr ymddiheuriad gan Trivallis yn y cyhoeddiad, gan nodi ei bod hi'n gobeithio y byddai'r ymddiheuriad yma'n cael ei rannu â'i denantiaid hefyd. Roedd y Cynghorydd Lises hefyd wedi croesawu'r ap newydd i denantiaid sydd ar y gweill.

Roedd y Cynghorydd A Roberts wedi gofyn pam bod gan Trivallis y gyfradd rent uchaf ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru, a hynny yn un o'r ardaloedd mwyaf tlawd yng Nghymru.

Cododd y Cynghorydd D Williams dau bryder, roedd y cyntaf yn ymwneud â'r chwe garej a gafodd eu hadeiladu gan Trivallis 12 blynedd yn ôl, pan gafodd y ganolfan i'r gymuned ei hadeiladu, ac sydd yn wag o hyd, er i'r ganolfan ofyn i'w defnyddio nhw fel man storio. Roedd yr ail bryder yn ymwneud â'r garejys y tu cefn i'r clwb yn Nglyn-coch, sydd bellach wedi mynd yn adfail ac yn denu ymddygiad gwrthgymdeithasol yn aml. Roedd y Cynghorydd Williams wedi dweud bod cynlluniau i ddymchwel y garejys wedi'u nodi dwy flynedd yn ôl ond maen nhw yno o hyd ac yn achosi llawer o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Roedd y Cynghorydd M Webber wedi nodi ei bod hi wedi ymgysylltu'n rheolaidd â phob Cymdeithas Dai arall ar wahân i Trivallis yn ystod pandemig Covid, a hynny yn ystod cyfnod pan oedd cyfathrebu yn hanfodol. Nododd ei bod hi wedi cysylltu â Trivallis 5 mlynedd yn ôl ynglŷn â garejys mewn cyflwr gwael yn ei ward hi, dywedodd y swyddog fod Trivallis yn cynnal adolygiad o'r garejys cyn bo hir, ond maen nhw'n parhau i fod yn wag ac mewn cyflwr gwael hyd heddiw. Roedd y Cynghorydd Webber hefyd wedi codi pryderon am faterion sy'n ymwneud ag inswleiddio wal geudod gan bwysleisio pa mor bwysig yw hi bod Trivallis yn ymgysylltu ag Aelodau Etholedig. Daeth y Cynghorydd â'i chyfraniad hi i ben drwy nodi bod angen gwneud gwaith pellach i wella dulliau cyfathrebu a gweithio mewn partneriaeth.

Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol - Cymunedau wedi ymddiheuro am y cyfathrebu gwael wrth ymateb i gŵyn y Cynghorydd Webber, amlinellodd y mesurau sydd ar waith i fynd i'r afael â'r materion yma wrth symud ymlaen. Rhoddodd wybod y bydd Trivallis yn mynd ati yn ystod y misoedd nesaf i geisio recriwtio swyddog a fydd yn gyfrifol am gydlynu gweithgareddau datblygu'r gymuned. Rhoddodd wybod hefyd y bydd Trivallis yn rhoi diweddariad am ddau fater allweddol sydd wedi cael eu codi gan Aelodau yn ystod y cyfarfod yma, sef garejys ac inswleiddio wal geudod.

Roedd y Cynghorydd G Hopkins wedi holi cwestiwn am y rôl y mae Trivallis yn ei chwarae yn rhan o'r Gofrestr Tai Cyffredin, gofynnodd y Cynghorydd a oes modd i Trivallis gynnig sut y mae modd gwella'r gofrestr yma, ac yntau'n bartner allweddol yn rhan o'r cynllun?

Roedd y Cynghorydd J Barton wedi nodi na fydd yr Ap i Denantiaid yn addas ar gyfer tenantiaid hŷn, holodd pa strategaethau sydd ar waith ar gyfer y tenantiaid hirdymor hynny sy'n delio â thenantiaid newydd, aflonyddgar sy'n cael effaith negyddol iawn ar eu bywydau?

Roedd y Cynghorydd J Smith wedi gofyn pa bolisi sydd gan Trivallis er mwyn mynd i'r afael ag achosion o dipio'n anghyfreithlon a chreu llwybrau llygod mawr mewn gerddi?

Roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol - Cymunedau wedi rhoi gwybod bod gofyn i denantiaid gadw'u gerddi yn daclus yn rhan o'u cytundebau. Fodd bynnag mae hyn yn anodd i rai tenantiaid o ganlyniad i broblemau iechyd neu anabledau, er bod rhai tenantiaid yn dewis i beidio â chydymffurfio â'r cytundeb o gwbl. Nododd hefyd bod angen mabwysiadu dull mwy rhagweithiol, fel bod modd nodi problemau'n gynnar a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar denantiaid i fynd i'r afael â'r broblem. Ychwanegodd y byddai modd dylunio rhai rhwystrau yn ystod y camau datblygu cynnar ar gyfer datblygiadau newydd.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod bod Trivallis wedi penodi dau swyddog newydd yn ddiweddar i gynorthwyo â gwaith ymateb i ymholiadau, er mwyn mynd i'r afael ag ymholiadau'n gyflym ac mewn modd effeithlon. Wrth ymateb i'r ymholiad ynghylch y Polisi Dyraniadau, roedd y Cyfarwyddwr wedi cadarnhau bod gan Trivallis berthynas dda gyda'r Awdurdod Lleol o ran rheoli'r dyraniadau tai. O ganlyniad i faterion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, yr argyfwng costau byw a'r galw am lety dros dro, mae angen gweithredu dull cytbwys i sicrhau bod anghenion y tenantiaid mwyaf agored i niwed yn cael eu bodloni yn unol ag egwyddorion cymunedau cynaliadwy. Awgrymodd y Cyfarwyddwr y bydd hyn yn cyflwyno her, ond byddai angen mabwysiadu dull ar y cyd.

I gloi, dymunodd y Prif Weithredwr, Mr D Forbes, ddiolch i'r Aelodau am gymryd rhan a holi cwestiynau, gan nodi y bydd rhai cwestiynau yn cael eu hateb ar ôl y cyfarfod. Nododd fod y materion sydd wedi cael eu codi'n dangos pa mor bwysig yw hi bod y Rheolwr Cymdogaethau, Cydlynwyr y Cymdogaethau a'r Aelodau Etholedig yn cyfathrebu â'i gilydd am y sgysiau maen nhw'n eu cael gyda'u trigolion er mwyn goresgyn y materion sy'n codi, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ychwanegodd fod y rhan fwyaf o achosion yn galw am ddull cytbwys, er mwyn cefnogi cymdogion drwy'r broses gyfryngu. Nododd hefyd bod covid a'r argyfwng costau byw wedi cael effaith negyddol ar broblemau sydd wedi effeithio ar y gymdogaeth ers sbel, ac yn gwaethygu'r problemau yma.

Roedd yr Arweinydd wedi diolch i swyddogion Trivallis eto, gan nodi bod Aelodau Etholedig yn codi'r un materion tro ar ôl tro, yn ogystal â'r materion ehangach y mae angen i Trivallis eu gwella. Roedd yr Arweinydd wedi pwysleisio pa mor bwysig yw hi i wneud cynnydd yn y meysydd yma, ond nododd ni allai Trivallis ganiátau i'r materion yma fynd yn waeth eto. Mae angen mynd i'r afael a'r materion sydd wedi codi dros y 17 mlynedd diwethaf a bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda Trivallis i wneud cynnydd ar gyfer tenantiaid Trivallis ledled y Fwrdeistref Sirol.

Roedd y Llywydd wedi diolch i gynrychiolwyr Trivallis am ddod i'r cyfarfod gan nodi bod modd i Aelodau gyflwyno cwestiynau pellach iddyn nhw drwy Uned Busnes y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm

**Y Cyngorydd G Hughes
Cadeirydd.**

tudalen wag



**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 12 Gorffennaf 2023 am
5.15 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion [yma](#)

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr
y Cyngor:-**

Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd B Stephens
Y Cyngorydd J Brencher	Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd S Bradwick	Y Cyngorydd G Caple
Y Cyngorydd J Cook	Y Cyngorydd A Crimmings
Y Cyngorydd E Dunning	Y Cyngorydd R Davis
Y Cyngorydd S Emanuel	Y Cyngorydd J Edwards
Y Cyngorydd G Jones	Y Cyngorydd L Ellis
Y Cyngorydd W Jones	Y Cyngorydd B Harris
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd G Holmes
Y Cyngorydd C Lises	Y Cyngorydd W Hughes
Y Cyngorydd C Middle	Y Cyngorydd G O Jones
Y Cyngorydd S Morgans	Y Cyngorydd C Leyshon
Y Cyngorydd A Morgan	Y Cyngorydd M Maohub
Y Cyngorydd S Rees	Y Cyngorydd C Preedy
Y Cyngorydd G Stacey	Y Cyngorydd J Smith
Y Cyngorydd S Trask	Y Cyngorydd L Tomkinson
Y Cyngorydd M Webber	Y Cyngorydd G Warren
	Y Cyngorydd R Yeo

Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:

Y Cyngorydd J Barton	Y Cyngorydd P Binning
Y Cyngorydd A Dennis	Y Cyngorydd M Ashford
Y Cyngorydd V Dunn	Y Cyngorydd S J Davies
Y Cyngorydd R Evans	Y Cyngorydd D Evans
Y Cyngorydd H Gronow	Y Cyngorydd S Hickman
Y Cyngorydd R Lewis	Y Cyngorydd J Elliott
Y Cyngorydd D Owen-Jones	Y Cyngorydd Sera Evans
Y Cyngorydd W Treeby	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd K Webb	Y Cyngorydd A S Fox
Y Cyngorydd T Williams	Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd R Williams	Y Cyngorydd D Parkin
Y Cyngorydd A Rogers	Y Cyngorydd A Roberts
Y Cyngorydd D Wood	Y Cyngorydd D Williams

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr

Mr B Davies, Cyfarwyddwr Cyfadran – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen

Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr S. Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democraataidd

Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y Cynghorydd L Addiscott	Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd A J Ellis	Y Cynghorydd P Evans
Y Cynghorydd K Johnson	Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd N H Morgan	Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd M Norris	Y Cynghorydd S Powderhill
Y Cynghorydd G E Williams	Y Cynghorydd M Powell

26 Croeso

Roedd y Llywydd wedi croesawu'r Aelodau i gyfarfod hybrid y Cyngor - a oedd wedi dechrau am 5.15pm.

27 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda a chafodd datganiad o fuddiant pellach ei wneud ynglŷn ag eitem 5 ar yr agenda yn ddiweddarach yn y cyfarfod (gweler Cofnod 31):

Eitem 7 ar yr Agenda - Y Diweddaraf Am Faterion Cynllunio Cenedlaethol a Rhanbarthol a Chymeradwyaeth ar gyfer Cytundeb Cyflawni a Diwygiad i'r Amserlen ar gyfer Gwaith Paratoi Parhaus Y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.

Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis wedi datgan buddiant personol - "Mae fy nghyflogwr, Cymdeithas Tai Hafod, wedi'i nodi yn yr adroddiad, rydw i hefyd yn aelod o Gymdeithas y Sgowtiaid".

Eitem 10 ar yr Agenda – Rhybudd o Gynnig Brys

Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Hughes wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu (Bydda i'n gadael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth am yr eitem yma) - "Mae fy ngwraig yn rheoli'r gwasanaeth gofal yn y cartref".

Roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu (Bydda i'n gadael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth am yr eitem a bydd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol B Stephens, y Dirprwy Lywydd, yn camu i rôl y Cadeirydd ar gyfer yr eitem yma) - "Mae fy mam yn gweithio i'r gwasanaeth gofal yn y cartref."

28 Cofnodion

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion cyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Mehefin 2023 yn rhai cywir.

29 Cyhoeddiadau

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

- Roedd yr Arweinydd wedi cyhoeddi marwolaeth y Cyfarwyddwr Cyfadran, Mr George Jones. Disgrifiodd yr Arweinydd Mr Jones fel swyddog gwyb, cwrtais a chyfeillgar. Yn anffodus, roedd Mr Jones wedi ymddeol yn gynnar o ganlyniad i iechyd gwael. Roedd yr Arweinydd wedi cyfleu ei dristwch am y mater yma gan estyn cydymdeimlad i deulu Mr George Jones ar ran y Cyngor.
- Ar ran y Cynghorydd S Morgans, roedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Smith yn dymuno llongyfarch disgyblion Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 Ysgol Gynradd Gymuned y Maerdy am ennill cystadleuaeth cyfnod sylfaen Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig 2023. Roedd 6,000 o geisiadau ac roedd disgyblion Blwyddyn 1 a 2 wedi ennill cystadleuaeth prosiect treftadaeth gyda'u cyflwyniad nhw 'Made and Moulded in Maerdy'.

30 DATGANIADAU

Roedd Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE wedi rhoi gwybod ei fod e wedi gofyn i'r Cyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen i gyflwyno unrhyw becynnau cyllid sydd ar gael i gefnogi trigolion a'r 3ydd sector cyn y gaeaf, a hynny'n rhan o'i adolygiad canol blwyddyn o sefyllfa'r Cyngor o ran tanwariant a chronfeydd wrth gefn. Ychwanegodd y byddai'n hoffi gweld y Cyngor yn defnyddio pecyn cyllid gwerth miliynau o bunnoedd i gefnogi trigolion a'u teuluoedd gyda'r argyfwng costau byw a'r effaith ddilynol ar dlodi plant lle bynnag y bo modd, pe byddai'r pecyn cyllid yma ar gael.

3 Cwestiynau gan yr Aelodau

1) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:

"A wnaiff yr Arweinydd roi diweddariad ar yr ymrwymiad i gyllido 10 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu a darparu trosolwg o sut mae'r gwasanaeth Wardeiniaid Cymunedol yn cael effaith gadarnhaol ar ein cymunedau?"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod 10 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu bellach yn gweithio'n dda gyda'r 14 Warden Cymunedol i gefnogi Heddlu De Cymru. Ychwanegodd na fyddan nhw'n cymryd lle'r Heddlu, gan eu bod nhw'n darparu presenoldeb gweladwy sy'n tawelu meddwl ein trigolion mewn ardaloedd allweddol yn ein cymunedau, megis canol trefi a pharciau. Mae adborth y cyhoedd wedi bod yn gadarnhaol iawn hyd yn hyn ac mae busnesau a thrigolion lleol wedi nodi bod eu presenoldeb nhw yn cael effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau o ddiogelwch y gymuned.

Nododd yr Arweinydd eu bod nhw'n helpu i sicrhau cydymffurfiaeth â Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus y Cyngor, o ran cadw cŵn oddi ar gaeau chwaraeon a'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus sy'n gysylltiedig ag alcohol yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr. Ar hyn o bryd mae 14 Warden yn rhan o'r garfan, gan gynnwys 2 Uwch Warden, maen nhw'n gweithio hyd at 7 diwrnod yr wythnos yn rhan o batrwm sifftiau. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu 14/15 awr y dydd.

Roedd yr Arweinydd wedi annog Aelodau i roi gwybod am unrhyw achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan ddefnyddio'r dulliau arferol, sef mewnlwch y Gwasanaethau i Aelodau, Diogelwch y Cyhoedd neu'r Heddlu. I gloi, roedd yr Arweinydd wedi nodi bod y gwasanaeth yma'n un o'r ymrwymadau craidd oedd wedi'u nodi yn rhan o fanifesto Grŵp Llafur RhCT, ac sydd bellach wedi cael ei weithredu.

Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.

2. Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D Parkin i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

"A wnaiff yr Aelod o'r Cabinet roi diweddariad ar welliannau i'r mannau chwarae ledled y Fwrdeistref Sirol?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Crimmings:

Roedd y Cyngorydd Crimmings yn falch o gadarnhau bod rhaglen adnewyddu a gwella mannau chwarae'r Cyngor wedi parhau yn ystod y cyfnod ers dechrau tymor newydd y Cyngor. Esboniodd fod y Cyngor wedi cyflawni rhaglenni buddsoddi sylweddol yn y maes yma bob blwyddyn ers 2015 - a hynny er mwyn cydnabod sut y mae pobl ifainc yn cael budd o chwarae yn yr awyr agored, gan annog eu datblygiad a'u dychymyg.

Roedd y Cyngorydd Crimmings wedi rhoi gwybod bod 166 o'r 217 o fannau chwarae wedi derbyn buddsoddiad yn ystod y cyfnod yma, sef 76.5% o'r holl fannau chwarae. Mae dros 3/4 o'r cyfleusterau chwarae wedi derbyn gwelliannau'n rhan o raglen fuddsoddi gwerth £6miliwn. Mae rhai o'r cyfleusterau yma wedi gweld gwaith "cam 2" o ganlyniad i fuddsoddiadau rhannol neu'r angen i adnewyddu offer, felly mae cyfanswm o 186 o brosiectau wedi'u cyflawni.

I gloi, rhoddodd y Cyngorydd Crimmings wybod bod 10 prosiect wedi cael eu nodi ar gyfer gwaith gwella yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24, gan gynnwys man chwarae Tyn-y-Bryn yn ward y Cyngorydd Parkin. Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad gwerth £341,000.

Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.

3) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Emanuel i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:

"A oes modd i'r Arweinydd rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud mewn perthynas â Metro De Cymru?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod Trafnidiaeth Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y pedwar mis diwethaf. Mae'r Ganolfan Reoli yn Ffynnon Taf bellach wedi agor a chafodd cerbyd newydd y Metro ei gyflwyno ar y rheilffordd. Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod gwaith profi'r tram-drenau trydan/batri, a fydd yn gweithredu ar linellau Treherbert ac Aberdâr, bellach wedi cychwyn. Mae'r gwaith profi yma'n cael ei gynnal cyn dechrau'r

broses o hyfforddi gweithredwyr y trenau, a byddan nhw'n gweithredu o ddepo Ffynnon Taf, gwerth £100miliwn.

Esboniodd yr Arweinydd fod y rhan gyntaf o'r rheilffordd, rhwng Caerdydd a Phontypridd, wedi cael ei thrydaneiddio ar ddiwedd mis Mai, mae gwaith gwella'r traciau wedi cael ei gynnal mewn lleoliadau ledled Llinell Graidd y Cymoedd er mwyn paratoi ar gyfer y tram-drenau newydd. Roedd y rhaglen drawsnewid ar gyfer llinell Treherbert wedi dechrau ar ddiwedd Ebrill 2023, gan osod ffensys palisâd ac adeiladu manau croesi o dan y trac ar hyd y llwybr yma. Mae plattform newydd yn cael ei adeiladu yng ngorsaf Dinas, Cwm Rhondda, gan y bydd y rheilffordd yn cael ei dyblu yn yr orsaf yma. Bydd pont Mynediad i Bawb newydd, sy'n cynnwys lifft a grisiau i'r ddau blatfform, hefyd yn cael ei gosod.

Nododd yr Arweinydd fod Trafnidiaeth Cymru wedi rhannu negeseuon diogelwch mewn perthynas â thrydaneiddio'r llinell ar Facebook, a hynny i gadw cymunedau'n ddiogel.

Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.

4) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A J Dennis i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:

"Pa gefnogaeth a gwasanaethau cyfeirio sydd ar gael i drigolion o ran yr argyfwng costau byw"

Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:

Rhoddodd yr Arweinydd wybod y bydd pecynnau cymorth pellach yn cael eu cyhoeddi yn yr Hydref, ond hyd yn hyn, mae modd i grwpiau cymunedol geisio cyllid yn rhan o'r cynllun micrograntiau ac mae'r Cyngor eisoes wedi derbyn nifer fawr o geisiadau. Ychwanegodd fod effaith cyni parhaus a'r argyfwng costau byw yn golygu bod banciau bwyd yn hanfodol er mwyn cefnogi trigolion, mae gwaith sylweddol yn cael ei gynnal yn y Pantrioedd Bwyd, Clybiau Bwyd a Hwyl, a thrwy swmp brynu bwydydd yn rhan o wasanaethau caffael y Cyngor.

Siaradodd yr Arweinydd am lwyddiant Canolfannau'r Gaeaf y llynedd a'r cymorth a gafodd ei ddarparu gan y llyfrgelloedd a chanolfannau cymuned y Cyngor i'r trigolion hynny oedd yn cael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw. Ychwanegodd fod helpu trigolion i gymdeithasu a chynnig man diogel a chynnes i gwrdd yn hanfodol, yn enwedig gan ystyried costau ynni a thanwydd uwch. Pwysleisiodd yr Arweinydd y byddai angen i'r Cyngor barhau i ddarparu cymorth yn ôl yr angen, yn enwedig i'r 3^{ydd} sector.

Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.

5) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Morgans i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:

"Yn dilyn sicrhau caniatâd cynllunio, a wnaiff yr Aelod o'r Cabinet amlinellu'r camau nesaf ar gyfer datblygu ysgol newydd sbon ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn yng Nglynrhedynog?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol R. Lewis:

Rhoddodd y Cyngorydd Lewis wybod bod gwaith eisoes wedi dechrau ar y safle i greu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd sbon ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn. Hyd yn hyn, mae gwaith adfer sylweddol wedi cael ei gyflawni, ac mae'r contractwr sydd wedi'i benodi, Wynne Construction, bellach ar y safle yn gwneud cynnydd da gyda gwaith clirio'r safle a gwaith tyrchu a llenwi. Mae disgwyl i'r gwaith adeiladu ddechrau ym mis Medi 2023.

Nododd y Cyngorydd Lewis fod y Cyngor anelu at gwblhau'r ysgol newydd (yr adeilad ei hun) erbyn Awst 2024, fel bod yr adeilad yn barod ar gyfer blwyddyn academaidd 2024. Mae'n bwysig nodi bod Wynne Construction wedi ymweld â'r ysgol yn ddiweddar i gynnal sesiwn lechyd a Diogelwch ar y safle gyda'r disgyblion, gan dynnu sylw'r disgyblion at beryglon safle adeiladu. Maen nhw hefyd wedi lansio cystadleuaeth dylunio poster lle bydd disgyblion o sawl grŵp blwyddyn yn dylunio poster diogelwch, bydd rhai yn cael eu dewis a'u harddangos ar y safle.

Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.

6) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D R Bevan i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:

"A wnaiff yr Arweinydd rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sydd wedi'i wneud ar domen Tylorstown?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod gwaith yn parhau i fynd rhagddo ar safle Tomen Tylorstown o ganlyniad i'r tywydd sych yn ddiweddar. Dechreuodd y cloddwaith ym mis Ebrill 2023, gyda'r contractwyr yn symud 160,000 tonnell o ddeunyddiau. Nododd ei fod e wedi ymweld â'r safle yn ddiweddar yng nghwmni Prif Weinidog Cymru a swyddogion Llywodraeth Cymru i weld y gwaith sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Esboniodd y bydd gwaith pellach yn cael ei gynnal dros y misoedd nesaf a bydd gwaith ar y safle'n cael ei gwblhau cyn y gaeaf, ond bydd angen parhau i fonitro'r safle dros y gaeaf i asesu sut y bydd y glaw yn effeithio ar y mynydd, a phennu a oes angen cynnal gwaith pellach a gwaith addasu. Bydd gwaith i gwblhau'r prosiect yn cynnwys gorffen y proffiliau terfynol, gosod ac atgyweirio'r seilwaith draenio ac adfer y safle.

Roedd yr Arweinydd yn falch o gyhoeddi bod y safle bellach yn ddiogel (er y tirlithriad mawr yn RhCT, un o'r tirlithriadau mwyaf yn hanes Cymru) - ar ôl cwblhau'r gwaith yma fydd dim angen cynnal rhagor o waith ar y safle. I gloi, roedd yr Arweinydd wedi cyhoeddi bod cais wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i gynnal ymyriadau pellach ar domennydd eraill.

Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.

7) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol W. Lewis i Arweinydd y Cyngor – Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:

"Sut ydy'r Cyngor yn gweithio gyda banciau bwyd, ac yn eu cefnogi nhw, drwy'r argyfwng Costau Byw?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:

Pwysleisiodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi bod yn darparu cymorth uniongyrchol i'r banciau bwyd lleol a chymorth drwy ei bŵer prynu dros y blynyddoedd. Gyda chymorth micrograntiau, ychwanegodd yr Arweinydd fod ceisiadau 75 o brosiectau a grwpiau cymunedol wedi cael eu cymeradwyo a byddan nhw'n dechrau'r broses o ddarparu'r cynlluniau cyn bo hir, gyda rhai yn cynnwys darpariaeth yn ystod y gwyliau ac eraill yn cynnig darpariaeth fwyd. Mae'r Gronfa Rhwydweithiau Cymdogaeth yn cynnig grantiau o hyd at £1,000 i sefydliadau a grwpiau cymunedol. Nododd yr Arweinydd y bydd Microgrant Cymunedol CBRhCT - Cronfa Ffyniant Gyffredin - yn cynnwys dyraniad o oddeutu £40,000 ar gyfer darpariaeth fwyd gynaliadwy. Cafodd y cyllid yma ei sicrhau gan y Cyngor er mwyn cwrdd â'r galw cynyddol.

Roedd yr Arweinydd wedi cydnabod y garfan fach, sy'n cael ei harwain gan Syd Dennis, am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda chysylltwyr cymunedol, drwy rwydwaith RhCT Gyda'n Gilydd, sy'n cefnogi trigolion yn ystod cyfnodau anodd. Roedd yr Arweinydd yn gobeithio y bydd yr economi yn gwella a bydd y sefyllfa o ran gwariant y cyhoedd yn newid, gan leihau'r galw am fanciau bwyd ymhlith trigolion, wrth iddyn nhw symud allan o dlodi.

Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.

8) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M Maohoub i Arweinydd y Cyngor, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:

"A wnaiff yr Arweinydd roi diweddariad ar yr hyn y mae'r Cyngor yn ei wneud i baratoi ar gyfer cynllun 20mya Llywodraeth Cymru?"

Ymateb gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol A. Morgan OBE:

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod llawer o waith eisoes wedi ei wneud i gyflawni blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Yn 2021/22, cafodd £53,522.62 ei wario ar waith paratoadol ac yn 2022/23, cafodd £1.1 miliwn pellach ei wario ar adolygu rheoliadau traffig a chynnal profion dylunio a chafodd y marciau cylchol 20mya eu tynnu i lawr mewn rhai ardaloedd. Mae gwaith gweithgynhyrchu 1,268 o arwyddion newydd wedi cael ei gomisiynu ac mae carfanau wedi'u trefnu i osod yr arwyddion newydd, ac mae'r broses o symud y pyrth arafu yn RhCT wedi dechrau.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y Cyngor yn wynebu heriau mawr i gyflawni'r gwaith erbyn y terfyn amser, sef 1 Medi, ac mae'r cynllun yma'n cael ei blaenoriaethu dros gynlluniau eraill. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr Arweinydd er nad oes unrhyw adnoddau pellach ar gael eleni ar gyfer ceisiadau gorchmynion rheoleiddio traffig sy'n cael eu cyflwyno gan Aelodau, bydd unrhyw geisiadau yn parhau i gael eu nodi a'u croesgyfeirio ag adroddiadau'r Heddlu am Ddamweiniau er mwyn nodi unrhyw faterion sydd angen sylw brys, gan nodi cynlluniau traffig sydd ddim yn rhai brys fel cynlluniau i'w hadolygu yn y dyfodol.

Doedd dim cyfle i ofyn cwestiwn ategol gan fod yr amser ar gyfer gofyn cwestiynau wedi dod i ben.

(Nodwch: Datganodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher fuddiant personol – “ Mae

fy mab yn gweithio i gwmni Trafnidiaeth Cymru”)

32 Rhaglen Waith Y Cyngor 2023/24

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wedi cadarnhau mai dyma yw cyfarfod olaf y Cyngor cyn toriad yr haf, a bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn yn cael ei gynnal am 5pm ar 20 Medi 2023. Ychwanegodd y bydd angen trafod nifer fawr o faterion yn ystod y cyfarfod yma, felly mae'n bosibl y bydd angen edrych unwaith eto ar drefn y materion y mae angen eu trafod yn ystod cyfarfodydd y Cyngor yn yr Hydref. Bydd hyn yn cael ei wneud yn rhan o drafodaethau gydag Arweinwyr y Grwpiau ble'n addas.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod y bydd y sesiynau hyfforddiant a'r sesiynau datblygu ar gyfer Aelodau sydd wedi cael eu cyhoeddi yn ddiweddar yn cael eu cynnal am amser cyfleus yn dilyn adborth yr Aelodau.

33 Adolygiad Blynyddol Cylch Rheoli'r Trysorlys 2022/23

Yn unol â gofynion Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Rheoli'r Trysorlys a Chod Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol, rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran, Cyllid, Gwasanaethau Rheng Flaen a Gwasanaethau Digidol wybodaeth i'r Aelodau ynglŷn â:

- Gweithgarwch Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod 2022/23; a
- Gwir Ddangosyddion Darbodus a Dangosyddion y Trysorlys ar gyfer 2022/23.

